**<u>Pwyllgor Diwylliant – CC-7-02(p.2)</u>**

**Dyddiad:** 17 Ebrill 2002

**Amser:** 9.00am-12.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Adolygiad o'r Iaith Gymraeg: Polisïau Tai a Chynllunio**

**Cyflwyniad**

Mae llawer o sylwadau wedi dod i law'r Pwyllgor a oedd yn awgrymu y dylid defnyddio polisïau tai a chynllunio i atal cyfradd y mewnfudo a'r allfudo sy'n effeithio'n andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg. Ystyriwyd y materion hyn gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LGH) ar 7 a 21 Tachwedd y llynedd a chan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 9 Ionawr 2002. Trafododd y Pwyllgor Diwylliant ei hun y mater ag aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 17 Ionawr.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd y dylai'r Pwyllgor nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cynllunio a'r iaith ond y dylai ei gadael i rai eraill wneud argymhellion manwl. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar beth allai'r blaenoriaethau hynny fod.

**Materion**

(i) <u>Canllawiau Cynllunio</u>

Nid oedd galw cyffredinol am newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol. Fel y dywedodd un cyflwyniad, mae'r system gynllunio yn gweithredu yn bennaf ar y lefel leol a'r awdurdodau cynllunio sydd erioed wedi bod yn y sefyllfa orau i farnu materion sy'n destun pryder i'w cymunedau lleol. Y farn eang, er hynny, oedd bod angen cryfhau Nodyn Cyngor Technegol 20 ar yr iaith Gymraeg. Awgrymwyd, er enghraifft, y dylai gynnwys canllawiau i'r awdurdodau lleol ar gomisiynu Asesiadau Effaith ar Iaith mewn perthynas â cheisiadau cynllunio am ddatblygu sylweddol. Tynnodd mwy nag un cyflwyniad y gymhariaeth ag asesiadau amgylcheddol tebyg.

Er hynny, croesawodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, a ystyriodd yr adolygiad ar 9 Ionawr, y ffaith bod canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn TAN 20 yn cael eu cryfhau. Bu iddynt groesawu hefyd yr ymchwil a gomisiynwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar effaith y canllawiau wedi'u cryfhau ar yr iaith, ond bu iddynt bwysleisio'r angen am fwy o wybodaeth yn enwedig ar y lefel leol. Mae'r Gweinidog wedi

ymrwymo i adolygu’r canllawiau os bydd ymchwil yn dangos bod angen hyn.

**Deellir bod Pwyllgor yr Amgylchedd o’r farn mai proses barhaus yw datblygu canllawiau. Yng ngoleuni hynny a’r safbwyntiau cryf a fynegwyd i’r Pwyllgor Diwylliant efallai y bydd am ystyried a oes angen gwaith pellach ar TAN 20.**

(ii) Ardaloedd Ieithyddol

Cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ei drafodaeth ar 7 Tachwedd fod y Cynulliad wedi dangos ymrwymiad parhaus i sicrhau bod pobl leol yn cael y cyfle i aros yn eu cymunedau eu hunain. Yr oeddent yn teimlo, er hynny, y byddai’n annerbyniol ac yn anymarferol gorfodi arferion cyfyngus er mwyn mynd i’r afael â phroblemau tai Cymru wledig. Yr oeddent o’r farn ei bod yn orfodol i’r Cynulliad barhau i hybu dewis rhydd ar gyfer pobl leol a phobl heb fod yn lleol o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Gwrthddadl i hynny oedd, o gofio’r data priodol ar broffiliau ieithyddol cymunedau, anghenion tai, patrymau mudo dros gyfnod o ddeng mlynedd, y galw am dai isel eu cost, maint datblygu newydd dros ddeng mlynedd, ac archwiliad o’r tir yn dangos lle gellid ymdopi â thwf, ac ar ddynodiadau tirlun, y gallai fod modd dynodi "ardaloedd ieithyddol" neu fel yr awgrymodd cyflwyniad arall "lleiniau ieithyddol". Dadleuwyd na fyddai polisi a fyddai’n ceisio darparu tir am dai ar gyfer angen lleol yn unig, o reidrwydd yn mynd yn groes i’r Ddeddf Hawliau Dynol. Ar yr amod bod yr awdurdodau cynllunio wedi casglu digon o wybodaeth, gellid dangos cyfiawnhad ynghylch paham yr oedd polisi rhagweithiol yn cael ei hybu er mwyn bod o fudd i rai pobl leol.

Cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth, na fyddai’n ymarferol ystyried unrhyw gyfyngiadau, o gofio cyfraith Ewropeaidd ar symudiad rhydd pobl, ond serch hynny ni ddylai hyn lesteirio cynigion ar gyfer helpu i sicrhau bod pobl frodorol (Cymraeg neu Saesneg eu hiaith) yn gallu sicrhau tai yn eu cymunedau eu hunain.

**Efallai y bydd y Pwyllgor yn hoffi ystyried a ellid cyflawni hyn, fel y cynigiwyd uchod, drwy ddynodi "ardaloedd ieithyddol".**

(iii) Y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) a’r Cynllun Prynu Cartref

Trafododd y Pwyllgor Diwylliant (17 Ionawr) a’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (7 Tachwedd) y cynllun hwn. Yr oedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am weld cynnydd yn y dyraniad presennol o £18m yng nghyllideb y Grant Tai Cymdeithasol i ardaloedd gwledig. Yr oedd rhai aelodau o’r Pwyllgor Diwylliant am weld cynnydd yn y swm sydd ar gael (£1.5m ar hyn o bryd) ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref.

**A yw’r Pwyllgor am gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol am gynnydd yn y gyllideb ar gyfer ardaloedd gwledig, ac a yw ar y cyd am argymell cynnydd yn y dyraniad Prynu Cartref?**

(iv) <u>Cartrefi Gwyliau</u>

Unwaith eto, trafododd y ddau Bwyllgor y mater hwn yn yr un priod gyfarfodydd. Un o’r cynigion allweddol a oedd o’u blaenau oedd y dylai caniatâd cynllunio fod yn angenrheidiol er mwyn newydd annedd barhaol yn gartref gwyliau. Yr oedd awgrym wedi bod hefyd y dylid codi’r dreth gyngor ar gartrefi gwyliau i 200%.

Teimlai rhai o Aelodau’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fod gan gartrefi gwyliau sy’n cael eu gadael yn wag am ran helaeth o’r flwyddyn effaith negyddol ar y gymuned a’r cyffiniau. Teimlwyd hefyd y gallai’r cartrefi hynny sy’n cael eu gosod am ran o’r flwyddyn gynyddu amlder digartrefedd yn anfwriadol, ac y gallai hynny greu pwysau ychwanegol ar yr awdurdodau lleol ac effeithio ar y broses ar gyfer gosod a dyrannu tai yn yr ardal.

Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i’r angen i sicrhau caniatâd cynllunio cyn newid annedd barhaol yn gartref gwyliau. Er hynny teimlwyd y dylai unrhyw gamau i gyfyngu ar y nifer o gartrefi gwyliau gymryd rôl twristiaeth i ystyriaeth, wrth gryfhau’r economi lleol. Teimlai’r Pwyllgor hefyd ei bod yn bwysig osgoi cosbi pobl leol a oedd am werthu eu heiddo.

Yr oedd un aelod o’r Pwyllgor Diwylliant hefyd yn cefnogi’r gynnig ar ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd.

Ni thrafododd y naill Bwyllgor neu’r llall y cynnig ar gyfer y dreth gyngor 200%.

**Efallai y bydd y Pwyllgor yn hoffi dod i gasgliad ar y materion hynny.**

(iv) <u>Pecyn Croeso</u>

Trafodwyd y cysyniad hwn gan y ddau bwyllgor. Fe'i cefnogwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac yr oedd rhai o aelodau'r Pwyllgor Diwylliant yn cytuno.

**Efallai y bydd y Pwyllgor yn hoffi cadarnhau ei safbwyntiau ac a ydynt yn cefnogi ymglymiad arfaethedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel y'i cyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr.**